Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

Tachwedd 2021

1. Cefndir

1. Cyflwynwyd Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ('y Bil') yn wreiddiol yn Nhŷ'r Cyffredin, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 9 Mawrth 2021.[1] Caiff ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cafodd y Bil[2] ei ailgyflwyno ar 18 Mai 2021 yn dilyn cynnig cario drosodd.

2. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Fe'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 6 Gorffennaf 2021,[3] cwblhaodd ei ail ddarlleniad ar 14 Medi 2021 ac mae'r Bil yn y cyfnod Adrodd ar hyn o bryd.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Ar 28 Mai 2021, gosododd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[4] (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

4. Gwnaethom adrodd[5] ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 14 Hydref 2021. Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad ar 12 Tachwedd.[6]

5. Mae paragraffau 10 i 16 o'r adroddiad hwnnw yn nodi'r cymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle y mae anghytundeb yn codi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

6. Ar 5 Tachwedd 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[7] (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil.

---

[1] Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd [Bil Tŷ'r Cyffredin 268, 2019-21]

[2] Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd [Bil Tŷ'r Cyffredin 5, 2021-22]

[3] Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd [Tŷ'r Arglwyddi 40]

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Mai 2021

[5] Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Hydref 2021

[6] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 12 Tachwedd 2021

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Tachwedd 2021

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 25 Tachwedd 2021.[8]

8. Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â diwygiad i gymal 17 (Cyfarwyddydau) yn y Bil fel y cytunwyd arno yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae Cymal 17 yn rhan o gyfres o gymalau'n ymwneud â thrais difrifol (cymalau 7 i 22)

9. Mae'r Memorandwm gwreiddiol yn nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 7, 8, 10 i 16 a 19 i 22[9], ac mae'n argymell na ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad i gymalau 9, 17 a 18, gan nodi'r hyn a ganlyn:

> *"Y pryder ynghylch y pwerau newydd hyn sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd at ddibenion gorfodi'r ddyletswydd trais difrifol yw y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol o bosibl roi cyfarwyddyd ar faterion sydd wedi eu datganoli sy'n dod o fewn cylch gwaith awdurdodau Cymreig datganoledig".*[10]

Diwygio cymal 17 o'r Bil

10. Mae cymal 17 yn rhan o gyfres o gymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus lleol weithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau trais difrifol i fynd i'r afael â thrais difrifol (y cyfeirir ato ym Memorandwm Rhif 2 fel y Ddyletswydd Trais Difrifol).

11. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi:

> *"I gymal 17 y cynigir gwneud y gwelliannau sydd o dan sylw yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, ond maent yn ymwneud â chymalau 9 i 22. Argymhellwyd na ddylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad ar gyfer y cymalau hyn oherwydd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, y mae Memorandwm Rhif 1 yn ymwneud ag ef, dyletswydd i ymgynghori oedd cymal 17 yn hytrach na dyletswydd i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru."*[11]

12. Mae Memorandwm Rhif 2 yn egluro bod y diwygiad perthnasol yn "dileu'r gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru" ac yn lle hynny, "rhaid i'r

[8] Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Tachwedd 2021

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 12

[10] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm, paragraff 14

[11] Llywodraeth Cymru, y Memorandwm Atodol, tudalen 2

Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyfarwyddo awdurdod Cymreig datganoledig." Mae'n ychwanegu bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwygiad.[12]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

13. Mae paragraffau 7 ac 8 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi:

> *"Gan fod y gwelliant i gymal 17 wedi'i sicrhau, fel y nodir uchod, rydym nawr yn argymell y dylid rhoi cydsyniad i gymalau 9 i 22 o'r Bil (y cymalau Dyletswydd Trais Difrifol), y mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer pob un ohonynt.*
>
> *Mae trafodaethau rhynglywodraethol yn parhau ynglŷn â gweddill y darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn argymell na ddylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad ar eu cyfer sef (yn y Bil fel y'i cyflwynwyd): 'criminal damage to memorials' (cymal 46), 'unauthorised encampments' (cymal 61) a chymalau 54, 55 a 60 ynglŷn â'r drefn gyhoeddus. Bydd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol pellach yn dilyn fel y bo'n briodol, cyn y ddadl ynglŷn â'r cydsyniad deddfwriaethol."*

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

14. Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 15 Tachwedd 2021.[13]

Ein barn ni

15. Nodwn fod Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â diwygiad i gymal 17 o'r Bil, hynny yw, ei bod nawr yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyfarwyddyd i awdurdod datganoledig yng Nghymru o dan y cymal hwnnw.

16. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi nodi ym Memorandwm Rhif 2 ei bod yn fodlon bod y Bil yn darparu amddiffyniad priodol o ran y rhyngweithio gydag awdurdodau Cymreig datganoledig a materion datganoledig eraill.[14]

[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, tudalen 2

[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Tachwedd 2021

[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, tudalen 2

17. Wrth wneud hynny, ac fel yr amlygwyd yn ymateb y Gweinidog inni ar 12 Tachwedd, mae hyn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ein hadroddiad ar y Memorandwm, a ofynnodd am ddiweddariad ar y sefyllfa ynghylch cymalau 17 a 18.

18. Gwnaeth ein hadroddiad gwreiddiol nodi ansawdd gwael y Memorandwm. Mae'n siomedig, felly, bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ym Memorandwm Rhif 2 yn peri dryswch. Yn benodol, hoffem nodi'r pwyntiau a ganlyn:

- mae Memorandwm Rhif 2 yn hepgor unrhyw gyfeiriad at gymalau 7 ac 8, sy'n rhan o'r gyfres o ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd trais difrifol;
- nid yw'n glir ar unwaith sut mae'r diwygiad i gymal 17 yn ymwneud â "chymalau 9 i 22" fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2;[15]
- mae Memorandwm Rhif 2 yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi argymell yn y Memorandwm na ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad i gymal 10 i 16 a 19 i 22,[16] ond mewn gwirionedd argymhellodd fod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau hynny;[17]
- cyfeiriodd y Memorandwm at gymalau 62 a 63 o'r Bil yn ymwneud â gwersylloedd diawdurdod (heb gyfeirio at y rhifau cymalau penodol), fel darpariaethau yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac yr oedd Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r Senedd wrthod cydsyniad ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw paragraff 8 o Femorandwm Rhif 2, sy'n rhestru'r darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn argymell na'r ddylai Senedd roi ei chydsyniad ar eu cyfer (ac sy'n parhau'n destun trafodaethau rhynglywodraethol), yn cyfeirio at gymalau 62 a 63.

19. Mae'n bwysig bod Aelodau o'r Senedd yn cael gwybodaeth gywir, a'u bod yn glir ynghylch pa gymalau y gofynnir iddynt ystyried rhoi cydsyniad iddynt o fewn Bil y DU.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pam nad oedd Memorandwm Rhif 2 ar y Bil yn cyfeirio at gymalau 7 ac 8, ac esbonio hefyd sut mae cymal 17 yn ymwneud â chymalau "9 i 22" fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, tudalen 2

[16] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, tudalen 2

[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 12

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch pa gymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, a hefyd:

- y cymalau y mae'n argymell rhoi cydsyniad ar eu cyfer;
- y cymalau nad yw'n argymell rhoi cydsyniad ar eu cyfer.

20. Yn hyn o beth, rydym yn croesawu'r ffaith fod llythyr y Gweinidog ar 12 Tachwedd, a oedd yn ymateb i argymhelliad 2 yn ein hadroddiad gwreiddiol, wedi cadarnhau bod angen cydsyniad y Senedd ar gymal 42 o'r Bil.